

Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Addysg (Cymhwysra ar gyfer Cymorth i Fyfyrrwyr) (Diwygio) (Cymru) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau (Cymhwysra ar gyfer Cymorth i Fyfyrrwyr) (Diwygio) (Cymru) 2022.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
19 Ionawr 2022

Rhan 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cymhwysra am Gymorth i Fyfyrrwyr) (Diwygio) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Addysg (Athrofa Prifysgol Ewrop) (Cymru) 2014 (OS 2014/3037) ("Rheoliadau 2014") a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018 (OS 2018/191) ("Rheoliadau 2018").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Ystyriodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Rheoliadau Addysg (Athrofa Prifysgol Ewrop) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 (OS 2021/1294), sy'n diwygio Rheoliadau 2014, yn eu cyfarfod ar 6 Rhagfyr 2021 a chyhoeddi adroddiad yn cynnwys pwyntiau ar rinweddau a phwyntiau technegol. Mae'r Rheoliadau'n gwneud diwygiadau i fynd i'r afael â dau bwynt a wnaed gan y Pwyllgor. Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei gyhoeddi am ddim i'r holl dderbynwyr hysbys.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 22(1)(a), 22(2)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998").
- 3.2 Mae adran 22 o Ddeddf 1998 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach sy'n cael eu dynodi gan y rheoliadau hyn, neu odanynt. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymysg pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael y cymorth hwnnw.
- 3.3 Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004") yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(j), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22). Mae adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 yn arferadwy yn gyredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 3.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).

3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.6 Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu'r sail ar gyfer y system o gymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y DU, a myfyrwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru. Mae'r rheoliadau cyllid myfyrwyr yn cynnwys meini prawf cymhwysra sy'n pennu y gall grwpiau penodol fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu.

4.2 Mae Rheoliadau 2014 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwr cymwys fynychu Athrofa'r Brifysgol Ewropeaidd. Mae Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018. Cyrsiau israddedig llawnamser a rhan-amser yw'r rhain yn bennaf. Mae Rheoliadau 2018 hefyd yn darparu cymorth ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018 ac sy'n cael eu trosi wedyn o fod yn llawnamser i ran-amser neu ran-amser i lawnamser ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Diwygio Rheoliadau 2014

4.3 Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Prifysgol Ewrop) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021, a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2021, yn gwneud diwygiadau sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE i Rheoliadau 2014 mewn perthynas â darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n astudio yn Athrofa'r Brifysgol Ewropeaidd.

4.4 Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau 2014 drwy ddarparu drafft wedi'i ailfformatio mewn perthynas â'r diffiniad o un o ddinasyddion y DU. Maent hefyd yn cynnwys cyfeiriad at baragraff 289D o'r Rheolau Mewnfudo, gan gywiro hepgoriad yn y diffiniad o 'bartner gwarchoddedig'.

Diwygio Rheoliadau 2018

4.5 O ganlyniad i ymadawiad y DU o'r UE, gwnaed newidiadau sylweddol i'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2021. Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarniadau a Chymorth) (Diwygio) (Cymru) 2021, a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2021, yn

gwneud diwygiadau i sicrhau bod gwladolion Gwyddelig yn gymwys i gael statws ffioedd cartref, y cap ar ffioedd dysgu a chymorth ffioedd dysgu o ganlyniad i drefniant yr Ardal Deithio Gyffredin.

- 4.6 Un o ganlyniadau anfwriadol y rheoliadau diwygio hynny yw bod gwladolion Gwyddelig sy'n astudio yng Nghymru ac a oedd yn byw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir ar ddiwedd y cyfnod pontio wedi'u gwneud yn gymwys i gael cymorth cynhaliath o dan Reoliadau 2018. Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau 2018 i sicrhau nad yw'r gwladolion Gwyddelig hyn yn gallu gwneud cais am gymorth cynhaliath ond eu bod yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth at ffioedd, statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu.

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y rheoliadau hyn ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Gan fod y Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau ffeithiol i ddiweddarau is-ddeddfwriaeth ac nad yw'r diwygiadau'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.